EDC-09-99(p.7)

Mr C Dafis AC, AS

Cadeirydd

Y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 oed

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bae Caerdydd

Caerdydd

CF99 1NA

19 Hydref 1999

Annwyl Cynog

**YSTYRIAETH Y PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD O ADRODDIAD ETAG**

Mae’n bleser gennyf nodi safbwyntiau’r Pwyllgor Datblygu Economaidd ar yr argymhellion a gynhwysir yn adroddiad ETAG er mwyn i chi eu hystyried.

Mae’r Pwyllgor yn cefnogi byrdwn y cynigion ac yn croesawu’r ymdrech i symleiddio’r system bresennol, gan leihau lefel y dyblygu gwaith a’r gystadleuaeth rhwng y darparwyr.

Y thema ganolog a ddaeth i’r amlwg yn ein trafodaeth ar yr Adroddiad oedd y berthynas rhwng argymhellion ETAG a’r Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol (SDEG). (Wrth gwrs, nid oedd y Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol ar gael pan ddrafftiwyd adroddiad ETAG.)

Yn ystod y misoedd diweddar mae’r Pwyllgor wedi trafod yr argymhellion a gynhwysir yn y SDEG a’r dogfennau rhaglenni Amcan 1 ac Amcan 3. Argymhellion ETAG fydd un o’r prif fecanweithiau ar gyfer cyflwyno’r SDEG. Felly, mae’n hanfodol fod y Strategaeth yn cyfrannu at y sylfaen ar gyfer nodi’r galw am fedrau a mynd i’r afael ag ef yn y dyfodol. Mae angen sicrhau hefyd fod cynlluniau’r sefydliadau lleol a rhanbarthol a gynigiwyd o ganlyniad i’r adroddiad yn gyson â’r strategaethau rhanbarthol a lleol sy’n cael eu datblygu fel rhan o’r rhaglenni Amcan 1,2 a 3.

Yn ogystal, nodwyd y materion penodol canlynol:

- Teimlai’r Pwyllgor ei bod yn bwysig fod buddiannau’r sector busnes yn cael eu hadlewyrchu’n ddigonol yn y strwythur newydd. Dylid cynnwys y sector busnes yn benodol ar fwrdd y CETW newydd a thrwy’r holl strwythur, yn arbennig ar lefel leol.
- Yr oedd y Pwyllgor yn fodlon â’r egwyddor o ddiddymu’r CHMau cyn belled â bod cartref boddhaol yn cael ei ddarparu ar gyfer eu swyddogaethau menter. Er hynny, yr oedd y Pwyllgor yn pryderu yngln â’r cynigion i ailddosbarthu swyddogaethau’r CHMau. Nodwyd bod yr adroddiad yn cynnig y dylid rhannu’r swyddogaethau hyn rhwng pedwar sefydliad. Credai’r Pwyllgor yn gryf y dylid cymryd y cyfle i symleiddio’r modd o gyflwyno swyddogaeth y fenter yn hytrach na chyflwyno cymhlethdodau ychwanegol. Ystyriodd y Pwyllgor y posibilrwydd o drosglwyddo swyddogaethau menter y CHMau, y cyfrifoldeb dros ymgymryd ag asesiadau medrau yn y dyfodol a Buddsoddwyr mewn Pobl i’r WDA. Byddai’n dymuno bod yn rhan o’r broses ymgynghori pan fyddai cynigion pendant ar y mater hwn yn cael eu llunio.
- Yr oedd y Pwyllgor yn cydnabod yr angen am strwythur ar lefel ranbarthol, ond yr oedd ganddo amheuon ynghylch y ffaith nad oedd bwriad i gysylltu â’r Fforymau Economaidd

Rhanbarthol a strwythur rhanbarthol y WDA sydd eisoes yn bodoli. Teimlai y dylid ad-drefnu'r strwythurau ar gyfer datblygu economaidd a chymdeithasol pe bai modd. Eto, byddai'n dymuno bod yn rhan o'r broses ymgynghori wrth i gynigion pendant gael eu llunio.

- Yn y targedau addysg a hyfforddiant dylid adlewyrchu'r modd o ddethol sectorau fel a nodwyd yn y SDEG. Yn arbennig, dylid rhoi mwy o bwyslais ar fedrau'n ymwneud â TGCh.
- Dylid ymestyn y targedau i gynnwys NVQ Lefel 5 a chymwysterau cyfatebol, Prentisiaeth Fodern etc.
- Dylid adlewyrchu targedau SDEG ar gyfer cyfle cyfartal yn y cynigion terfynol.
- Dylid cynnal proses o gasglu gwybodaeth am y farchnad lafur ar lefel genedlaethol fel man cychwyn.

Byddwn yn ddiolchgar iawn petaech yn fy hysbysu o'r datblygiadau, yn arbennig ynghylch y cynigion ar gyfer swyddogaethau'r CHMau ym meysydd menter, medrau a Buddsoddwyr mewn Pobl.

Yn gywir

**VAL FELD**

**CADEIRYDD Y PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD**